Cofnodion cyfarfod hybrid y **PWYLLGOR CYLLID A MATERION CYFFREDINOL** a gynhaliwyd nos Fercher, 2 Hydref 2024 am 6.00pm.

**PRESENNOL**

Y Cynghorydd A. J. Rutherford (Cadeirydd)

Y Cynghorwyr M. Blackwell, Mrs M. A. Blakeley-Walker, Mrs J. Butterfield YH MBE, Mrs J. Chamberlain-Jones, Mrs E. M. Chard, Mrs J. M. Evans, S. Feeney, A. R. James, K. R. Jones, W. Price, Miss S. L. Roberts, Ms. V. Roberts, D. Simmons ac A. Walker.

Mr G. J. Nickels – Clerc y Dref
Mrs H. J. Mead – Dirprwy Glerc y Dref

## 41. YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorwyr Miss S. Fleming, Mrs D. L. King, Ms. J. L. McAlpine, Ms. R. Roberts a Miss C. L. Williams.

## 42. SEDD WAG CYNGHORYDD CYMUNED – WARD TRELLEWELYN Y RHYL

Hysbysodd Clerc y Dref y cyfarfod fod Mr Will Price wedi'i ethol yn llwyddiannus fel Cynghorydd Cymuned Ward Trellewelyn, a'i fod wedi llofnodi'r holl ddogfennau priodol.

Croesawodd y Cadeirydd y Cynghorydd Price i'r Cyngor Tref ar ran yr aelodau.

## 43. ADRODDIAD TALIADAU A DERBYNIADAU (ATODLEN A)

Cyfeiriodd y Cadeirydd at adroddiad Clerc y Dref (a ddosbarthwyd gyda'r agenda) yn rhoi manylion y taliadau a wnaed a'r incwm a dderbyniwyd.

| Taleb Rhif | Enw'r cyflenwr | Swm | Disgrifiad y nwyddau/gwasanaethau |
|---|---|---|---|
| Amherthnasol | Tesco | 3.00 | Yswiriant ffôn symudol |
| 1893 | BT | 299.70 | Llinellau ffôn a band eang |
| 1892 | HSBC | 8.00 | Ffi bancio |
| n/a | Tesco | 12.99 | Ffioedd ffôn symudol |
| 1896 | Staff Cyngor Tref y Rhyl | 8,425.92 | Cyflogau net mis Medi 2024 |
| 1894 | Cyllid a Thollau Ei Fawrhydi | 2,960.12 | Didyniadau Talu wrth Ennill mis Awst 2024 |
| 1895 | Cyngor Sir y Fflint – Cronfa Bensiwn Clwyd | 3,173.10 | Didyniadau pensiynau mis Awst 2024 |
| 1848 | Siop Cyngor am Fudd-daliadau | 1,213.33 | Swyddog Apeliadau – taliad 6 o 12 |
| 1808 | Cyngor Sir Ddinbych | 811.00 | Ardrethi annomestig y Swyddfeydd Dinesig, Ffordd Wellington, Y Rhyl – taliad 6 o 10 |
| 1849 | Cyngor ar Bopeth Sir Ddinbych | 2,000.00 | Swyddog Effeithlonrwydd Ynni – taliad 2 o 4 |
| Amherthnasol | Tesco | 3.00 | Yswiriant ffôn symudol |
| Amherthnasol | Tesco | 12.99 | Ffioedd ffôn symudol |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | **Cyfanswm y taliadau** | **£18,923.15** | |

| Categori | Disgrifiad | Swm |
|---|---|---|
| Santander | Llog ar y cyfrif Hysbysiad 31 diwrnod | 295.99 |
| HSBC | Llog ar y cyfrif busnes Money Maker 1 mis | 475.36 |
| HSBC | Llog ar y cyfrif adneuo 1 mis a aeddfedodd ar 19 Medi 2024 | 737.01 |
| | **Cyfanswm yr incwm** | **£1,508.36** |

***PENDERFYNWYD*** *derbyn a chymeradwyo'r adroddiad.*

## 44. ARCHWILIAD ALLANOL – DATGANIAD BLYNYDDOL 2022/23

Cyfeiriodd Clerc y Dref at yr adroddiad ar y cyd ganddo a'r Swyddog Cyllid (a ddosbarthwyd gyda'r agenda) yn dilyn cwblhau Archwiliad Allanol 2022/23, a oedd yn archwiliad estynedig, yn ffurfiol.

Mae Swyddfa Archwilio Cymru wedi cyflwyno barn archwilio 'glan', diamod, ond wedi codi un mater ynghylch Cronfa Elusennol y Maer i sicrhau nad yw'n cael ei defnyddio ar gyfer trafodion nad ydynt yn ymwneud â'r Cyngor Tref.

***PENDERFYNWYD***:

*(i) derbyn a chymeradwyo Datganiad Blynyddol 2022/23.*

*(ii) Cyfeirio mater Cronfa Elusennol y Maer i Is-bwyllgor Asesu Risgiau'r Cyngor Tref i'w ystyried a'i fonitro.*

## 45. DATGANIADAU ARIANNOL BLYNYDDOL 2022/23

Cyfeiriodd y Cadeirydd at yr adroddiad ar y cyd gan Glerc y Dref a'r Swyddog Cyllid (a ddosbarthwyd gyda'r agenda) a oedd yn cynnwys Datganiadau Ariannol 2022/23 y Cyngor Tref i'r aelodau eu cymeradwyo.

***PENDERFYNWYD*** *cymeradwyo Datganiadau Ariannol 2022/23.*

## 46. PENODI CYNRYCHIOLWYR I SEFYDLIADAU ALLANOL: CYMDEITHAS CYNGHORAU LLEOL GOGLEDD A CHANOLBARTH CYMRU – PWYLLGOR CYSWLLT TRAFNIDIAETH ARFORDIR GOGLEDD CYMRU

Hysbysodd y Cadeirydd fod y Cynghorydd B. Mellor wedi ymddiswyddo fel cynrychiolydd y Cyngor Tref ar y pwyllgor uchod a gofynnodd i'r aelodau ystyried enwebu cynrychiolydd arall.

***PENDERFYNWYD*** *penodi'r Cynghorydd M. Blackwell.*

## 47. EITEM GAN AELOD: BWRDD TREF Y RHYL

Gofynnodd y Cynghorydd Mrs J. Butterfield am gefnogaeth yr aelodau i wahodd cynrychiolwyr o Fwrdd Tref y Rhyl i ddod i gyfarfod yn y dyfodol i roi diweddariad i'r Cyngor Tref am y cynnydd a wnaed, ac i'r Cyngor Tref ystyried eitemau i'r Bwrdd eu hychwanegu at agenda'r Bwrdd yn y dyfodol.

Cyflwynodd cynrychiolydd y Cyngor ar Fwrdd Tref y Rhyl, y Cynghorydd A. J. Rutherford, ddiweddariad cryno yn dilyn mynd i gyfarfod cyntaf y Bwrdd ym mis Gorffennaf, a oedd yn canolbwyntio'n bennaf ar gylch gwaith a dull gweithredu'r Bwrdd. Nododd hefyd y cafwyd trafodaethau agored ac onest ynghylch methiannau a rhwystredigaethau yn y gorffennol, a oedd wedi ysgogi dyheadau ac agwedd gadarnhaol tuag at y fenter.

Yn anffodus ni lwyddodd y Cynghorydd Rutherford i ymuno yn yr ail gyfarfod chwarterol ar-lein oherwydd ei fod ef ac eraill wedi wynebu problem dechnegol gyda'r ddolen a anfonwyd gan Gyngor Sir Ddinbych. Cynhaliwyd y cyfarfod ond nid oedd wedi derbyn unrhyw nodiadau/cofnodion y cyfarfod hyd yma, felly ni allai roi rhagor o wybodaeth.

Dywedodd y Cynghorydd Rutherford y byddai'n rhoi diweddariadau rheolaidd o'r cyfarfodydd o hyn ymlaen, ac unwaith ei fod wedi gwirio y gallai wneud hynny, byddai'n rhannu llwyth o ddata ystadegol a gyflwynwyd i'r cyfarfod ym mis Gorffennaf er gwybodaeth i'r aelodau.

***PENDERFYNWYD***:

*(i) y byddai'r Cyngor Tref yn awgrymu eitemau ar gyfer agenda cyfarfodydd y Bwrdd yn y dyfodol.*

*(ii) gwahodd y swyddog perthnasol o Gyngor Sir Ddinbych i ddod i gyfarfod y Cyngor yn y dyfodol i drafod y cynlluniau ar gyfer Canolfan Cymuned Ffordd Wellington ar ôl i'r Cyngor Tref adael yr adeilad.*

## 48. EITEM GAN AELOD: MARCHNAD Y FRENHINES

Gofynnodd y Cynghorydd Mrs J. Butterfield am gefnogaeth yr aelodau i gael adroddiad cynnydd ar Farchnad y Frenhines ar ei newydd wedd gan Gyngor Sir Ddinbych.

***PENDERFYNWYD*** *gofyn am ddiweddariad i gyfarfod nesaf Grŵp Cyfeirio Lleol y Rhyl gan y teimlwyd ei fod yn lle mwy priodol i godi'r mater.*

## 49. ARDDANGOSFA TÂN GWYLLT A CHOELCERTH CYMUNED Y RHYL

Gofynnodd y Cadeirydd i'r aelodau gadarnhau'r ffurfiol gyfraniad y Cyngor Tref o £5,000 o'r gyllideb tuag at y digwyddiad, a drefnir gan Glwb Lles Gorsaf Dân y Rhyl.

***PENDERFYNWYD*** *cymeradwyo'r £5,000.*

## 50. DIWEDDU'R CYFARFOD

Gan nad oedd rhagor o eitemau busnes i'w trafodd cyhoeddodd y Cadeirydd ddiwedd y cyfarfod.

Cadeirydd: …………………………

Dyddiad: …………………..………